# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**1/7/25**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Alwyn Roberts (cadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Lis Puw, Euros Roberts, Beryl Griffiths, Rhodri Jones, Dewi Jones ac Alwyn Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3207 Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Alwyn M Roberts.

**3208 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Llinos Edwards (is gadeirydd), Huw P Roberts, a'r cynghorydd sir Alan Jones Evans.

**3209 Datganiadau o fuddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

**3210 Cofnodion Cyfarfod Mehefin 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3211 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Adroddwyd fod Grŵp Cynefin wedi ymateb i sylwadau anffurfiol y cyngor ar y bwriad i ddatblygu tai ger Maes y Pandy. Cytunwyd i anfon eto i fynegi pryderon nad yw'r cynllun o bosibl yn mynd i ddiwallu anghenion lleol, ac i wneud cais am fwy o wybodaeth am y cynllun Tai Teg.

ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Adroddwyd fod teulu'r diweddar Geoff Hodgkinson wedi trosglwyddo'r casgliad er cof amdano i'r cyngor tuag at gostau'r offer, a bod Cyngor Gwynedd wedi gosod polyn yn barod i'w osod ger ciosg Cwm Cynllwyd. Cytunwyd i symud ymlaen i archebu'r offer defib, ac i wneud trefniadau i'w weirio.

iii. Cerrig beddi Mynwent yr Eglwys: Cyflwynwyd hysbyseb drafft ar gyfer symud 5 carreg fedd oddi mewn i Fynwent yr Eglwys er mwyn hwyluso defnydd o ran isaf y fynwent. Cytunwyd i symud ymlaen i hysbysebu'r bwriad yn y wasg leol ac ar borth y fynwent, ac i ffeilio'r wybodaeth gyda Chyngor Gwynedd fel Awdurdod Claddu.

iv. Golau stryd Frongain: Adroddwyd fod y gwaith o osod lampau newydd wedi ei gwblhau.

v. Cofnodi Enwau Tirwedd Lleol: Derbyniwyd cynnig grant o £5,000 gan Barc Cenedlaethol Eryri i ariannu'r gwaith o hyrwyddo a dehongli enwau tirwedd lleol. Cytunwyd i dderbyn y cynnig, a nodwyd fod ail sesiwn i gofnodi enwau tirwedd lleol wedi ei chynnal yng Ngweithdy'r Saer ar Fehefin 19eg, a Thaith Gerdded i Gaer-gai wedi ei chynnal ar Fehefin 27ain pryd y cafwyd gwybodaeth am waith archeolegol diweddar ar y safle.

vi. Grant Gwynedd Ni: Adroddwyd fod Pwyllgor Datblygu'r Cyngor Cymuned wedi cyfarfod i drafod y grant, ac yn argymell gwneud cais i ddatblygu llwybrau treftadaeth yn yr ardal, hyn yn ategu'r gwaith o hyrwyddo enwau lleol. Cytunwyd i fwrw 'mlaen hefo'r cais ar y sail yma.

**vii.** Llinellau Melyn ger mynedfa Maes y Pandy: Cytunwyd fod angen llinellau melyn ger mynedfa Maes y Pandy, ar ddwy ochr y ffordd, a bod hefyd angen ystyried cyffyrdd Tŷ'n Ddol a Chae Gwalia.

viii. Lwfans Aelodau'r Cyngor am 2025/2026: Cwblhawyd y ffurflenni i nodi na fydd y cynghorwyr am dderbyn lwfans am fynychu cyfarfodydd y cyngor.

ix. Cynhadledd Byd Natur Eryri: Cafwyd adroddiad gan y Cyng Rhodri Jones o'r gynhadledd ym Mhlas Tan y Bwlch ym mis Mehefin

**3212 Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Yn ei absenoldeb derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Alan Evans, a dywedodd ei fod yn parhau mewn trafodaethau ynglŷn âr gro yn yr Afon Lliw, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru am wneud profion hydrolig ar y safle. Adroddodd hefyd fod Cyngor Gwynedd am adnewyddu canllaw Pont Llan, atgyweirio Ffordd y Plas a chryfhau ochrau'r ffordd ger Tŷ'n Fedw.

**3213 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Wedi trafod y cynllun grant Gwynedd Ni (gweler uchod).
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd fod angen galw cyfarfod o'r is bwyllgor i ystyried cyrbiau cerrig beddi.
3. Bioamrywiaeth: Adroddwyd fod gwaith ar y gweill yn yr hydref i greu gardd, bocsys adar, llwybrau a phyllau dwr yn ardal maes parcio'r fynwent a'r goedlan, hyn mewn cydweithrediad hefo Parc Cenedlaethol Eryri a disgyblion Ysgol O M Edwards.
4. Nadolig: Nodwyd y bydd angen trafod y cynlluniau yng nghyfarfod mis medi o'r cyngor.
5. Asedau: Derbyniwyd adroddwyd ar gyflwr asedau'r cyngor gan y cyng Arwel Ll Jones, a nodwyd fod panel wedi torri yn y lloches bws ger Pont Llan, ond bod y llwyn peryglus ar draws y ffordd wedi ei dorri. Nodwyd fod yr ardal o amgylch Pwmp y Llan wedi ei dacluso, a diolchwyd i Fred Jenkinson, Hen Dy'r Ysgol am ymgymryd âr gwaith yma.
6. Cyllid: Cytunwyd i baratoi adroddiad ariannol manwl o fisoedd cyntaf 2025/2026 erbyn mis Medi.

**3214 Materion Ariannol:** Cymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

Cyflog a threth incwm y Clerc.
Cytundeb glanhau y toiledau. Cytunwyd hefyd i godi'r cyflog 3.5%, hyn wedi ei ôl ddyddio i fis Ebrill 2025.
Anfoneb nwyddau glanhau'r toiledau.
Anfonebau am dorri gwair y Fynwent Newydd, Mynwent y Pandy a'r Gilfach Goffa..
Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Mehefin yn £88.26, ac fe gytunwyd i brynu a gosod bocs casglu newydd yn nhoiledau'r dynion, hyn yn dilyn y difrod diweddar.
Derbyniwyd adroddiad Archwiliad Mewnol y cyngor gan Gyngor Gwynedd, a nodwyd eu sylwadau. Cytunwyd i ofyn am eglurhad o'u sylwadau am osod cyllideb gytbwys, ac i nodi fod dogfennau Derbyn Lwfans y cyngor wedi eu cynnwys ar wefan y cyngor.

Adroddwyd fod Ffurflen Flynyddol y cyngor am y flwyddyn 2024/2025 wedi ei chyflwyno i Archwilio Cymru.
Adroddwyd fod HSBC yn dileu'r ffi fisol ar gyfrifon banc y cyngor.

**3215 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd y bydd Cyfarfod Blynyddol y fenter yn fuan, a bod holiadur defnyddwyr yr Eagles yn cael ei baratoi. Cytunwyd i longyfarch tenantiaid yr Eagles ar eu llwyddiant diweddar yn y gwobrau tafarn cenedlaethol. Adroddwyd fod trefniadau mewn lle i docio'r goeden ger Porth Mynwent yr Eglwys.

**3216 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod cais yn cael ei baratoi i ariannu gwaith Hwb Llesiant Penllyn a gwaith Gwedd 2 Canolfan Bro Tegid, a bod cyfarfod wedi ei drefnu i ddatblygu syniadau ar gyfer y Cyfnod.

**3217 Materion cynllunio:** Derbyniwyd cais cynllunio i ddiwygio Amod 2 (Meddiannaeth Gweithiwr Amaethyddol ) i amod Annedd Menter Wledig ar gyfer Derwen Gam. Penderfyniad y cyngor oedd y dylid cadw Amod 2 fel y mae gan fod perthynas annatod rhwng Derwen Gam a Chilgellan.

**3218 Gohebiaeth:**

i. Un Llais Cymru: Derbyniwyd copi o Raglen Hyfforddiant Un Llais Cymru am y cyfnod o Orffennaf i Fedi 2025. Gofynnwyd i'r clerc gylchredeg y rhaglen, i'r aelodau ddewis un sesiwn yr un i'w mynychu, ac i ail drafod y mater fis Medi. Derbyniwyd hefyd lythyr yn mynegi pryder am ddiffyg cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd misol y pwyllgorau ardal.
ii. Cyngor Gwynedd: Cytunodd y Cyng Alwyn Jones i gynrychioli'r cyngor mewn cyfarfod o Fforwm Adfywio Penllyn ar Orffennaf 2il.
iii. Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am y gronfa Arloesi i Dyfu, cronfa i ariannu cynlluniau i atal trosedd ac anrhefn.
iv. Triathlon y Bala: Derbyniwyd gwybodaeth am drefniadau Triathlon y Bala, fydd i'w chynnal ar Fedi 7fed. Cytunwyd i gefnogi'r digwyddiad mewn egwyddor, ond pwysleisiwyd yr angen i ymgynghori gyda busnesau lleol, ac i ganiatáu trafnidiaeth leol i ddefnyddio ffordd Llangywer yn ystod y digwyddiad.

**3219 Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Adroddodd y Cyng Rhodri Jones ei fod yn cydweithio gyda Fforwm Mynediad y Parc Cenedlaethol ar faterion mynediad lleol. Nodwyd hefyd fod angen tocio tyfiant ar Lwybr Cei.

**3220 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 2/9/25 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.